Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Hugh Irving, ar ran Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig i'w ystyried gan y Cyngor Llawn.

'Mae pryder o fewn Cymuned Prestatyn fod un o'r trefi mwyaf yng Ngogledd Cymru, sawl blwyddyn ar ôl i Bencadlys yr Heddlu a chyfleusterau lleol gael eu hadleoli i Barc Busnes Llanelwy, yn parhau i fod heb unrhyw Gyfleusterau Heddlu yn y dref.

Mae bob eiddo trethadwy ym Mhrestatyn yn cyfrannu o leiaf £330 i gyllido Gwasanaeth yr Heddlu. Gyda nifer o ddatblygiadau preswyl ar waith bydd y swm hwn yn cynyddu'n sylweddol ond gyda phoblogaeth uwch y daw galw ac mae eisoes problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol sydd angen ymyrraeth yn aml.

Mae'r grŵp yn cydnabod nad oes llawer o le yn Rhaglen Gyfalaf Heddlu Gogledd Cymru i adeiladu cyfleusterau newydd ond mae cyfle i Gyngor Sir Ddinbych ddarparu safle i Heddlu Gogledd Cymru sy'n addas ar gyfer Gorsaf Heddlu leol o fewn Prosiect Canol Tref sydd bron a'i gwblhau.

Cynigir bod y Cyngor yn gwneud penderfyniad i ofyn i'r Awdurdod ddwysau eu trafodaethau ynghylch y safle hwn gyda HGC a chymryd bob cam o fewn eu gallu i drafod telerau a fydd yn bodloni'r nod hwn.'